12 Mawrth 2021

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Diwygiadau i'n rheolau a'n canllawiau Dynodi

Rydym wedi diwygio ein rheolau a'n canllawiau Dynodi yn ddiweddar i egluro ein gofynion parhaus ar gyfer cymwysterau ar fframweithiau prentisiaethau Cymru a'r rhai ym Maes Pwnc Sector (SSA) 6, TGCh.

Yn dilyn ein Hadolygiad o'r Sector Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni, mae'r gofynion ychwanegol ar gyfer dynodi cymwysterau yn y sector hwn (SSA 4) hefyd bellach wedi'u nodi yn y rheolau a'r canllawiau Dynodi. Bydd y rheolau ynglŷn â'r gofynion ychwanegol hyn yn berthnasol i gymwysterau a gyflwynir i'w dynodi o **31 Mai 2021**.

Mae'r canllawiau'n cynnwys templedi i'w cwblhau a'u lanlwytho i QiW pan fyddwch yn cyflwyno cais am ddynodi cymwysterau yn SSA 6 neu, ar ôl **31 Mai 2021,** SSA 4.

Os ydych yn dymuno gofyn am ddynodi cymwysterau ymhellach yn SSA 6 neu cymwysterau yn SSA 4 gyda **dyddiad gorffen gweithredol (OED) o 31 Mai 2021 ymlaen**, llenwch a lanlwythwch y templed perthnasol i'w gyflwyno gyda'ch cais.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch y rheolau neu'r broses ddynodi, cysylltwch â recognitionandapproval@qualificationswales.org

Yn gywir

Delyth Jones

Pennaeth Cymeradwyo a Dynodi

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org